
# MANIFFESTO AR GYFER Y SECTOR MENTRAU CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

*Chwefror 2021*









*Paratowyd gan y Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol (Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru, Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, UnLtd, Canolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)*

# CYFLWYNIAD

Yn 2019, roedd sector mentrau cymdeithasol Cymru wedi tyfu i fwy na 2,000 o fusnesau, yn cyflogi 55,000 o bobl ac yn cyfrannu dros £3 biliwn at yr economi. Mae mentrau cymdeithasol yn elfen bwysig a dynamig o economi Cymru.

Gall y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru chwarae rhan allweddol yn helpu i ailadeiladu economi tecach, mwy cynhwysol, a chynaliadwy. Maent wedi'u gwreiddio yn eu cymuned; yn fynych, maent ym mherchenogaeth y gymuned; maent yn cyflogi'n lleol ac, yn aml, mae gwella'u hardal leol yn ganolog i'w nodau cymdeithasol.

Ym mis Gorffennaf 2020, lansiwyd 'Trawsnewid Cymru trwy Fenter Gymdeithasol'; gweledigaeth a chynllun gweithredu 10 mlynedd i'r sector. Lluniwyd y weledigaeth a'r cynllun gweithredu ar y cyd gan fentrau cymdeithasol ac asiantaethau cymorth mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Y nod yw cynnig gweledigaeth glir ar gyfer potensial y sector i gyfrannu at fywydau a bywoliaethau cymunedau ac economi Cymru, wrth i ni adfer ac ailadeiladu yn sgil effeithiau pandemig COVID-19.

## SECTOR MENTRAU CYMDEITHASOL CYMRU YN 2019:

**2022**
O FENTRAU CYMDEITHASOL

**55,000**
O WEITHWYR YNG NGHYMRU

GWERTH
**3BN**
I GYNNYRCH DOMESTIG GROS CYMRU

Mae'r argymhellion polisi yn y maniffesto hwn yn cyfrannu at gyflawni'r naw deilliant sydd wedi'u hamlinellu yng ngweledigaeth a chynllun gweithredu Trawsnewid Cymru trwy Fenter Gymdeithasol:-

# CRYNODEB O'R DEILLIANNAU

**01**

Bydd mwy o bobl yn dewis ymgysylltu â mentrau cymdeithasol – fel cwsmeriaid, cyflogeion, gwirfoddolwyr neu arweinwyr

**02**

Bydd mwy o bobl yn dewis model menter gymdeithasol i ddechrau busnes newydd

**03**

Bydd llunwyr polisi yn rhoi blaenoriaeth i atebion menter gymdeithasol wrth ystyried sut i fynd i'r afael â phroblemau a chreu amodau sy'n helpu mentrau cymdeithasol i ailadeiladu a ffynnu

**04**

Bydd mentrau cymdeithasol wedi'u cysylltu'n well â'i gilydd a byddant yn siarad gyda llais mwy unedig

**05**

Bydd mentrau cymdeithasol yn chwarae rhan fwy i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd

**06**

Bydd mentrau cymdeithasol yn mabwysiadu arferion Gwaith Teg, yn talu'r Cyflog Byw ac yn cynyddu amrywiaeth ymhlith eu cyflogeion a gwirfoddolwyr

**07**

Bydd mentrau cymdeithasol yn gallu manteisio'n well ar dechnoleg ddigidol er lles cymdeithasol

**08**

Bydd ystod a gwerth opsiynau cyllid wedi'u teilwra at anghenion mentrau cymdeithasol yn cynyddu

**09**

Bydd cymorth busnes arbenigol o ansawdd da, wedi'i deilwra at anghenion y sector, ar gael i bawb y mae ei angen arnyn nhw

# ARGYMHELLION POLISI

## ARGYMHELLIAD 01

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ehangu a chryfhau'r cymorth busnes arbenigol sydd wedi'i deilwra at anghenion mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol.*



**ERBYN 2019, ROEDD Y SECTOR GWERTH £3.18 BILIWN (I FYNY 87%), YN CYFLOGI 55,000 O BOBL (I FYNY 45%) AC YN CYNNWYS 2022 BUSNES (I FYNY 38%).[1]**

Mae gan fentrau cymdeithasol ran hanfodol i'w chwarae yn y broses ailadeiladu economaidd. Er eu bod yn wynebu llawer o'r un heriau ag unrhyw fusnes sylfaenol prif ffrwd, maent yn wynebu heriau unigryw hefyd. Mae pethau gwahanol yn gyrru mentrau cymdeithasol a chyflwynant atebion holistig, gan integreiddio'u hamcanion amgylcheddol a chymdeithasol â rhai economaidd. Mae ganddynt strwythurau llywodraethu penodol ac maent yn atebol i randdeiliaid lluosog. Mae angen cefnogi'r busnesau hyn mewn ffyrdd sy'n ystyriol o'u dull cyflawni a'u heffaith gymdeithasol.


Mae ariannu cymorth busnes arbenigol i'r sector yn galluogi iddo dyfu. Gwyddom fod y model yn gweithio a'i fod bellach yn cael ei ystyried mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Diolch i gyllid gan Lywodraeth bresennol Cymru, mae'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru wedi dangos twf sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2014, amcangyfrifwyd fod y sector gwerth £1.7 biliwn, ei fod yn cyflogi 38,000 o bobl a'i fod yn cynnwys 1470 o fentrau. Erbyn 2019, roedd y sector gwerth £3.18 biliwn (i fyny 87%), yn cyflogi 55,000 o bobl[1] (i fyny 45%) ac yn cynnwys 2022 o fusnesau (i fyny 38%) .

Mae'n glir fod twf ymhlith mentrau cymdeithasol yn cymharu'n dda ag economi ehangach Cymru, gan ddadlau'r achos o blaid parhau â chymorth busnes arbenigol i'r sector yn y dyfodol.

1. Mapio'r Sector Busnes Cymdeithasol yng Nghymru, Busnes Cymdeithasol Cymru, Mehefin 2019; cymru.coop/mapior-sector-busnesau-cymdeithasol-yng-nghymru-mehefin-2018-19/

# ARGYMHELLIAD 02

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i dyfu ffrydiau cyllido penodol i gefnogi'r sector mentrau cymdeithasol wrth iddo ddod allan o'r pandemig ac ailadeiladu.*



Mae'r cyllid a ddarparwyd i'r sector yn ystod y pandemig wedi bod yn hanfodol i sefydliadau oroesi. Mae effeithiau COVID-19 a diwedd cyllid Ewropeaidd yn golygu bod angen ehangu cymorth ariannol i'r sector er mwyn iddo ailadeiladu, datblygu a thyfu.

Bu croeso mawr i gyllid 'adfer' newydd ychwanegol Llywodraeth Cymru wrth i fentrau cymdeithasol ddechrau cynllunio ar gyfer dyfodol gwahanol. Rydym yn galw, felly, am sicrhau bod cyllid o'r fath yn parhau i fod ar gael, ar gyfer ffrydiau 'goroesi' ac 'adfer', gan gydnabod y bydd effeithiau COVID-19, i lawer, yn parhau'n fygythiad i'w goroesiad y tu hwnt i anterth y pandemig.

Mae gan fentrau cymdeithasol le unigryw; yn aml, ni fyddant yn gymwys i gael grantiau'r sector cyhoeddus, ond bydd benthyciadau'r sector preifat yn anaddas iddynt. Mae opsiynau cyllid wedi'u teilwra yn hanfodol i gefnogi'r sector.

Mae mentrau cymdeithasol yn dibynnu ar fatrics cyllid sy'n cynnwys cynhyrchu refeniw, grantiau a benthyciadau, ac nid yw banciau a benthycwyr masnachol yn bodloni anghenion ariannol y sector. Felly rydym yn galw am barhau â chyllid, ac arallgyfeirio cyllid, i fuddsoddwyr cymdeithasol cynhenid o Gymru i'w galluogi i barhau i fodloni anghenion ariannol y sector. Mae angen cymorth ariannol mwy hygyrch a hyblyg ar y sector, o gyllid sbarduno cam cynnar, i dwf ac uwchraddio, gan dargedu effaith yn hytrach nag allbynnau. Hefyd, dylid ystyried ymhellach ddefnyddio cyfalaf tymor estynedig, ynghyd ag anghenion penodol y sector y gellir eu bodloni, gan sicrhau bod grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli yn ymgymryd â'r buddsoddiad.

Mae cyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi caniatáu i'r buddsoddwyr cymdeithasol hynny arbrofi â modelau buddsoddi gwahanol, rhai ohonynt yn cael eu derbyn yn helaeth bellach fel 'arfer da'. Dylai unrhyw gyllid newydd a ddarperir annog a galluogi'r arbrofi hwnnw i barhau.

# ARGYMHELLIAD 03

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sefydlu polisïau ac arferion caffael a chomisiynu cyhoeddus sy'n gwreiddio gwerth cymdeithasol ac yn defnyddio cadwyni cyflenwi lleol.*

## AFEL RHAN O ADFERIAD GWYRDD, DYLAI LLYWODRAETH CYMRU LANSIO YMGYRCH 'PRYNU'N LLEOL' I GYMRU GYFAN I ANNOG POBL, BUSNESAU A'R SECTOR CYHOEDDUS I BRYNU, COMISIYNU A BUDDSODDI'N LLEOL

Bydd buddion gwreiddio gwerth cymdeithasol mewn arferion a phrosesau caffael a chomisiynu'r sector cyhoeddus yn golygu y bydd cyfleoedd i fentrau cymdeithasol fod yn rhan o gadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus. Hefyd, ystyriwn fod angen gwerthuso a mesur elfen gwerth cymdeithasol unrhyw gontract sy'n cael ei ddyfarnu. Mae adeiladu cadwyni cyflenwi lleol yn arwain at roi'r rheolaeth a'r buddion yn nwylo pobl leol. Mae potensial i'r dull hwn drawsnewid lleoedd ac economïau ledled Cymru.

Dylid mesur llwyddiant cyrff sector cyhoeddus wrth ddefnyddio gwerth cymdeithasol mewn prosesau caffael a chomisiynu. Cydnabyddir fod cyrff cyhoeddus yn defnyddio amrywiaeth o fetrigau gwerth cymdeithasol, gan gynnwys fframwaith Themâu a Deilliannau Cymru sy'n darparu cerrig milltir yn erbyn darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel y gall cynnydd tuag at y nodau hynny gael eu hasesu. Fodd bynnag, byddai cysondeb yn y dulliau a'r metrigau mae cyrff sector cyhoeddus yn eu mabwysiadu yn helpu i weithredu comisiynu sy'n seiliedig ar ddeilliannau a gwerth cymdeithasol.

Fel rhan o Adferiad Gwyrdd, dylai Llywodraeth Cymru lansio ymgyrch 'Prynu'n Lleol' i Gymru gyfan, i annog pobl, busnesau a'r sector cyhoeddus i brynu, comisiynu a buddsoddi'n lleol, i helpu cefnogi ac ailadeiladu economïau lleol gwydn.

Hefyd, dylai hyn gynnwys cymunedau, y cyhoedd yn ehangach a busnesau lleol, ynghyd â Chynghorau Lleol, mewn ymgyrch 'Prynu'n Lleol', gan wario a buddsoddi'n lleol fel rhan o'r Adferiad Gwyrdd.

# ARGYMHELLIAD 04

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu a defnyddio mentrau cymdeithasol yn ddatrysiadau ar draws holl feysydd portffolio'r Llywodraeth a Gweinidogion wrth i Gymru ddod allan o bandemig COVID-19.*



## MAE MENTRAU CYMDEITHASOL YN GWEITHREDU AR SAIL EGWYDDORION Y SYLFAEN DRIPHLYG: POBL, PLANED, ELW

Mae natur amlsectoraidd mentrau cymdeithasol yn golygu y gallant gynnig atebion arloesol a mentrus ar draws amrywiaeth o Adrannau'r Llywodraeth a phortffolios Gweinidogol.

Mae mentrau cymdeithasol yn gweithredu ar sail egwyddorion y Sylfaen Driphlyg: pobl, planed, elw. Mae hyn yn sicrhau bod eu pwrpas cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn ganolog i bopeth y gwnânt.

Mae mentrau cymdeithasol wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau; yn fynych, y gymuned sy'n berchen arnynt, maent yn cyflogi'n lleol ac, yn aml, mae gwella'u hardal leol yn ganolog i'w nodau cymdeithasol. Maent yn ffordd o sicrhau cyflenwad lleol o nwyddau a gwasanaethau mewn cyfnod o angen. Hefyd, mae busnesau cymdeithasol yn chwarae rhan benodol mewn creu swyddi i bobl sydd y tu allan i'r farchnad lafur, a datblygu'u sgiliau.

Dylid penodi grŵp gorchwyl a gorffen i archwilio'r potensial i fentrau cymdeithasol gyfrannu at amcanion portffolio pob Adran a Gweinidog yn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn helpu pob Adran i gyflwyno'r gwerth cymdeithasol mwyaf posibl i drethdalwyr Cymru.

# ARGYMHELLIAD 05

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i flaenoriaethu'r Argyfwng Newid hinsawdd ac adferiad 'Gwyrdd', a gwreiddio egwyddorion economi gylchol a di-garbon.*

Yn y cyfnod hwn o helbul iechyd, cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol dwys, mae cyfle gwirioneddol i ddatblygu atebion newydd a radical, a newidiadau pellgyrhaeddol sy'n ailadeiladu ein heconomi a'n cymdeithas mewn ffordd sy'n gweithio i bobl ac i'r blaned.

Dylai polisïau Llywodraeth Cymru ynghylch yr argyfwng hinsawdd ac amddiffyn yr amgylchedd hybu mentrau cymdeithasol fel model busnes o ddewis i sefydliadau sy'n gweithio ac sydd eisiau gweithio yn y maes hwn.

Mae mentrau cymdeithasol yn rhoi cymaint o bwys ar yr amgylchedd ag ar bobl ac elw, a gallant gymryd yr awenau wrth fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae llawer ohonynt yn cynnal mentrau amgylcheddol mewn sectorau fel ynni adnewyddadwy, sero wastraff, bwyd, bioamrywiaeth a rheolaeth ar dir.

Gall ysgogiadau economaidd sylweddol Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig ag ynni a seilwaith gael eu defnyddio i fuddsoddi mewn swyddi gwyrdd, a chreu nifer ohonynt, ynghyd â chefnogi datgarboneiddio.

Hefyd, mae cyfle i adeiladu cymunedau ac economïau lleol mwy gwydn, trwy uwchraddio mentrau cymdeithasol ac asedau a busnesau ym mherchenogaeth leol a'r gymuned, fel eu bod yn ganolog i'r adferiad gwyrdd hwn.

Mae amcanion amgylcheddol a gwella'r ardal leol yn ganolog i nodau cymdeithasol rhai ohonynt. Maent mewn sefyllfa ddelfrydol i chwarae rhan allweddol wrth helpu gyda hyfforddiant a datblygiad sgiliau mewn cymunedau lleol fel rhan o bontio gwyrdd, teg.



# ARGYMHELLIAD 06

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru ddatblygu a gweithredu polisïau sy'n cefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth a Gwaith Teg yn economi Cymru, gan fanteisio ar arbenigedd mentrau cymdeithasol i wneud hynny.*

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

**YNG NGHYMRU, MAE 76% O FUSNESAU CYMDEITHASOL YN TALU'R CYFLOG BYW. PAN FYDD CYFLOGWYR YN YMRWYMO I DALU CYFLOG BYW GO IAWN I'W GWEITHWYR, MAE HEFYD YN HELPU I GYNYDDU CYNHYRCHIANT LLEOL AC MAE'N GYRRU TWF CYNHWYSOL.**

Mae pobl ifanc, menywod, pobl ag anableddau, pobl o gefndiroedd du, Asiaidd ac ethnig lleiafrifol, cyn-droseddwyr, pobl sy'n ymdopi â chamddefnyddio sylweddau, pobl sydd wedi bod yn ddigartref a phobl sy'n ymdopi â phroblemau iechyd meddwl yn wynebu anawsterau penodol wrth fynd i'r farchnad lafur, dychwelyd iddi a dal gafael ar waith yn y farchnad lafar, neu yn wir wrth ddechrau eu busnes eu hunain. Rydym yn gwella'n cefnogaeth i adeiladu sector mentrau cymdeithasol mwy amrywiol ac rydym am i Lywodraeth Cymru ymuno â'n hymdrech. Rydym am weld Llywodraeth Cymru'n harneisio arbenigedd mentrau cymdeithasol fel bod gweithleoedd yn gynrychioliadol o'n cymdeithas Gymreig amrywiol. Dylai'r ymdrech hon arwain at gymorth mwy cynhwysol ar gyfer dechrau busnesau, a chreu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth i'r bobl sydd bellaf o'r farchnad swyddi, gan gefnogi datblygiad cadwyni cyflenwi lleol a'r 'agenda swyddi gwell yn nes at adref'.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod mentrau cymdeithasol yn fwy tebygol o fod yn gyflogwyr gwaith teg, gyda phobl yn cyflawni llesiant ac yn gwireddu'u potensial. Yng Nghymru, mae 76% o fusnesau cymdeithasol yn talu'r Cyflog Byw. Pan fydd cyflogwyr yn ymrwymo i dalu Cyflog Byw go iawn i'w gweithwyr, mae hefyd yn helpu i gynyddu cynhyrchiant lleol a gyrru twf cynhwysol. Gall gwaith teg helpu i gyflawni economi gryfach, wedi'i moderneiddio a mwy cynhwysol. Mae mentrau cymdeithasol mewn sefyllfa dda i helpu cyflwyno'r agenda gwaith teg sy'n datblygu, yn eu sector a'r tu hwnt yng Nghymru.

## ARGYMHELLIAD

# 07

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru lansio menter buddsoddi a gwella sgiliau i feithrin seilwaith a sgiliau digidol yn y trydydd sector (gan gynnwys ar gyfer mentrau cymdeithasol).*

Rydym yn croesawu lansio Canolfan Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, gan fod potensial i ddatblygiadau mewn technoleg ddigidol gael effaith gadarnhaol sylweddol trwy ddatblygu datrysiadau newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. I weithio ochr yn ochr â'r Ganolfan newydd hon, rydym yn galw am raglen i hyrwyddo gwasanaethau digidol yn y trydydd sector. Mae llawer o elusennau a sefydliadau trydydd sector yn darparu gwasanaethau cyhoeddus a chymunedol hanfodol. Mae arnom angen sicrhau bod y sefydliadau hyn hefyd yn gallu manteisio ar dechnoleg ddigidol i wella'r gwasanaethau a ddarparant a dod yn fwy effeithlon; mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth i fentrau cymdeithasol barhau i ganoli a datblygu'u gwerthiannau a'u gwasanaethau ar-lein o ganlyniad i'r pandemig.

Rydym yn gofyn am:-

- ddarparu hyfforddiant penodol ar arweinyddiaeth i sicrhau bod pobl sy'n gweithio yn y trydydd sector yn gallu ennill sgiliau digidol gwerthfawr
- cyllid i gefnogi datblygiad digidol, fel nad yw'r trydydd sector, gan gynnwys mentrau cymdeithasol, yn cael eu heithrio.

## ARGYMHELLIAD

# 08

*Dylai Llywodraeth nesaf Cymru greu cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid cyfrifol yn gymdeithasol trwy wreiddio mentrau cymdeithasol ac economeg llesiant mewn cwricwla economeg/astudiaethau busnes ym mhrifysgolion, colegau ac ysgolion Cymru.*

Mae consensws bod gan addysg entrepreneuriaeth ran hanfodol i'w chwarae wrth ddatblygu diwylliant o fenter a dileu rhwystrau rhag menter, yn enwedig mewn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Wrth i ni ymdrechu i adeiladu economi newydd yng Nghymru sy'n gosod llesiant yn ganolog i lunio polisïau, rydym yn galw am wreiddio mentrau cymdeithasol ac entrepreneuriaeth gymdeithasol yn yr addysg fenter gaiff myfyrwyr yn ysgolion, colegau a phrifysgolion Cymru.

**MAE'N HANFODOL EIN BOD YN HYFFORDDI CENHEDLAETH NEWYDD O ENTREPRENEURIAID SY'N BAROD I ARLOESI A DATBLYGU SYNIADAU BUSNES ECO-GYFEILLGAR A CHYFRIFOL YN GYMDEITHASOL.**

# GALWAD I WEITHREDU

## Dylai Llywodraeth nesaf Cymru barhau i gefnogi a bod yn rhan o'r Grŵp Rhandeiliaid Mentrau Cymdeithasol.

A'r grŵp yn swyddogaeth gydlynu a chynrychioliadol y sector mentrau cymdeithasol, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gefnogi ac ymwneud â'r Grŵp Rhandeiliaid Mentrau Cymdeithasol.

Galwad i weithredu yw'r maniffesto hwn a gofynnwn fod Llywodraeth nesaf Cymru yn uno gyda'r sector i gyflwyno a gwreiddio mentrau cymdeithasol o fewn economi Cymru wrth i ni ailadeiladu, adfer a thyfu.

Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX

0300 111 5050
info@wales.coop
wales.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddiant Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (sy'n masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, megis print bras neu braille, ar gael ar gais.